**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG GYNHALIWYD YN Y NEUADD 19 MAWRTH 2026 AM 8.00YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Philip Davies (Cadeirydd), Janet Knott, Elfyn Williams, Meinir James, Jenny Jones, Nicola Jones, Rheinallt Jones, Eifion Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Y Cyng Viv Davies, Shan Rees, a Carys Thomas

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cynllunio**

**PL/10552 - Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin**

Ystyriodd aelodau'r Cais Cynllunio a gyflwynwyd gan Ynni'r Grid Cenedlaethol. Ar ôl ystyried yr holl faterion cysylltiedig, cytunwyd i godi gwrthwynebiadau yn ymwneud â'r materion canlynol:

- Graddfa Gyffredinol y Datblygiad
- Pryderon ynghylch Goleuo
- Pryderon ynghylch Effaith Sŵn
- Gwelededd safle'r prosiect arfaethedig
- Pryderon ynghylch Effaith Dirgryniad
- Pryderon ynghylch Effaith ar Iechyd
- Pryderon ynghylch Materion Priffyrdd
- Pryderon ynghylch Effaith ar Iechyd Anifeiliaid
- Pryderon ynghylch Effaith ar yr Amgylchedd
- Pryderon ynghylch Colli Gwerth Eiddo
- Pryderon ynghylch Diogelwch

Gyda'r Cyngor felly o'r farn bod y cais yn groes i bolisïau canlynol y Cyngor Sir:

- GP1.a gan na fydd y safle arfaethedig yn cydymffurfio â chymeriad a golwg y safle neu'r ardal nac yn eu gwella o ran lleoliad, golwg, graddfa, uchder, màs, triniaeth drychiad a manylion;
- GP1.b gan na fydd y safle arfaethedig yn ymgorffori tirweddau presennol gan ystyried cyfuchliniau'r safle a newidiadau mewn lefelau a gorwelion a chribau amlwg;
- GP1.d gan y bydd yn cael effaith sylweddol ar amwynder defnyddiau tir cyfagos, eiddo, trigolion neu'r gymuned;

- GP1.g gan nad yw'n dangos y bydd yn creu lle diogel sy'n sicrhau diogelwch i'r safle a'r ardal;
- GP1.h gan fod trefniadau mynediad yn codi pryderon diogelwch priffyrdd yn yr ardal;
- GP1.l gan nad yw'r cais yn rhoi ystyriaeth lawn i ddefnydd diogel, effeithiol ac effeithlon o'r rhwydwaith trafnidiaeth;
- GP1.m gan nad yw'n cefnogi darparu rhwydwaith integredig sy'n hyrwyddo buddiannau cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus, gan sicrhau mynediad rhwydd i bawb;
- EP2 – Yn gyffredinol;
- EP2.c gan nad yw'n dangos y bydd y cynnig yn sicrhau bod llygredd sŵn yn cael ei leihau lle bo'n briodol;
- EQ4.a gan nad yw'r effeithiau ar fioamrywiaeth yn cael eu lliniaru'n foddhaol, eu lleihau'n dderbyniol na'u rheoli'n briodol i gynnwys gwelliannau net.

Bydd y Cyngor hefyd yn nodi ei bryderon ynghylch y cynnig Budd i'r Gymuned, nad oedd yn cael ei ystyried yn ddigonol.

Yn ogystal, bydd y Cyngor yn codi pryderon eto ynghylch diffyg gwybodaeth am effaith gronnus yr holl ddatblygiadau arfaethedig sy'n ymwneud â'r prosiectau hyn.

Nododd y Cyngor ei fod yn deall yn llawn y gallai datblygiad o'r math hwn fod yn angenrheidiol i alluogi gweithredu cyfleusterau sydd eu hangen ar y Grid Cenedlaethol. Fodd bynnag, nid oedd y Cyngor yn credu bod y safle datblygu arfaethedig yn briodol a bod y cais yn groes i nifer o Bolisïau Cyngor Sir Caerfyrddin. Credai'r Cyngor Cymuned hefyd y byddai'n fwy priodol i'r datblygiad ddigwydd ar un o nifer o safleoedd tir llwyd a allai ddarparu ar gyfer y datblygiad ledled De-orllewin Cymru.

Roedd y Cyngor Cymuned hefyd yn dymuno gofyn am ymweliad safle llawn gan y Pwyllgor Cynllunio yn rhan o'r broses ystyried. Yn olaf, byddai'r Cyngor Cymuned yn gofyn am gyfle i'w gynrychiolwyr annerch y Pwyllgor Cynllunio ar y mater pan gaiff ei ddwyn i'w sylw i'w benderfynu.